



# Y We Fyd Eang yn Cyrraedd Cymru

## 1993

Datblygwyd y We Fyd Eang (WWW) yn CERN, y labordy ffiseg gronynnau Ewropeaidd, gan Tim Berners-Lee ym 1989-90. Ym 1993, rhyddhawyd y feddalwedd am ddim ac ar gael i bawb a daeth yn hysbys i'r cyhoedd â diddordeb technegol. Dyluniwyd y poster hwn o 1994, gan Timothy Edward Downs i ddiddori darllenwyr cylchgronau cyfrifiadura personol.

Mae map 1994 yn dangos goruchafiaeth y llywodraeth ac addysg: mae'n cynnwys tua 30 o weinyddion ac ychydig gannoedd o wefannau. Erbyn 2014, roedd biliwn o wefannau. Mae'r map yn dangos dwy wefan cynnar yng Nghymru, ym Mhrifysgolion Abertawe a Chaerdydd, y ddau wedi'u sefydlu gan fyfyrwyr.

Abertawe ar Syrffio Gŵyr: Wrth ymweld â Los Angeles ym 1993, gwelodd David Dunbar, darlithydd yn Abertawe, dudalennau gwe y ffisegwyr gronynnau arbrofol a gosododd feddalwedd gwe ar gyfer ei westeion, damcaniaethwyr UCLA. Gan grybwyll hyn mewn e-byst gyda myfyrwyr PhD yn Abertawe, ar eu menter eu hunain, gosododd Peter Coyle a Chris Abrahams y we ar beiriant sy'n perthyn i ffisegwyr gronynnau Abertawe a chreu'r wefan hon ar gyfer syrffwyr.

Caerdydd ar Ffilmiau: Ganed Rob Hartill ym Mhontypridd ym 1969 a gwnaeth ei BSc a PhD mewn Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd yn weithgar mewn grŵp newyddion a gasglodd adolygiadau a bostiwyd gan aelodau ac, ym 1993, cynhyrchodd ryngwyneb gwe i'r gronfa ddata hon. Wedi'i brynu gan Amazon ym 1998, daeth yn Gronfa Ddata Ffilmiau y Rhyngwlad (IMDb).

Aeth Hartill ymlaen i fod yn un o arloeswyr y We Fyd Eang, gan gyd-sefydlu a datblygu seilwaith meddalwedd (y system gweinydd Apache amlycaf) a chynnwys (y storfa adroddiad ymchwil agored ArXiv.org yn Los Alamos).



History of Computing Collection

technocamps

@technocamps

